**ATODIAD 5**

**YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2021/22**

1. **Cefndir:** Adroddwyd i gyfarfod 25 Ionawr 2021 o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar elfennau perthnasol o gyllideb ddrafft y Cyngor ar gyfer 2021/22, lle nodwyd y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi yn anrhydeddus.

2. **Chwyddiant:** Tra mae Canghellor Llywodraeth San Steffan yn annog rhewi cyflogau staff gwasanaethau eraill o Ebrill 2021, bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£1.1m** eleni drwy ychwanegu darpariaeth ar gyfer chwyddiant tâl athrawon. Bydd hyn yn cyfarch cost cynnydd cyfartalog o 3.1% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn llawn cytundeb tâl Medi 2020. Wrth gwrs, bydd dyraniadau ysgolion am ynni hefyd yn codi gyda lefel chwyddiant perthnasol.

3. **Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £262k tuag at gyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22 oherwydd incrementau net o drosiant staff. Bydd **£212,500** o'r ychwanegiad yma'n mynd i gyllidebau ysgolion: £116,500 i'r sector Gynradd a £96,000 i'r sector Uwchradd.

4. **Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2020 i gyfrifo dyraniadau 2021/22. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn codi **£187k**, sy'n cynnwys lleihad -£260k i'r sector Gynradd a chynnydd +£447k i'r sector Uwchradd.

5. **Bidiau Argymhellir Cymeradwyo:** Gwelir yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu 'bidiau' parhaol 2021/22 i'r Adran Addysg gwerth cyfanswm o **£495k**, er mwyn ariannu cost uwch cludiant tacsis a trennau i ddisgyblion (£145k parhaol a £145k arall un-tro), prydau ysgol am ddim (£124k) ac i gryfhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol blynyddoedd cynnar (£226k).

6. **Gofynion Ychwanegol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**: Deallaf fod yr Adran Addysg yn ystyried ymgynghori ag ysgolion ar y posibilrwydd i'r cwantwm arian dirprwyedig gyllido gwerth **£163,080** o gyllideb adrannol ar gyfer y maes ADY, sef £63,580 am 'Gydlynydd / Swyddog Ansawdd ADY', a £99,500 am 'Ddatrys Anghytundebau ADY'. Mae £163,080 cyfwerth â tua 0.2% o'r cwantwm arian dirprwyedig, felly erbyn 2020/21 ni ddylai fod newid o sylwedd i'r gymhareb disgybl:athro cyfredol yn y fformiwla dyrannu cyllidebau ysgolion o ganlyniad i hyn.

7. **Dim Arbedion Newydd:** Unwaith eto eleni, wrth ddatblygu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi gofyn i ysgolion Gwynedd am arbedion newydd ychwanegol. Rhwng 2015/16 a 2021/22, bydd Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £31m o gynlluniau arbedion, gyda £4.3m ohono (14% o'r arbedion) wedi'i gynhaeafu o'r ysgolion (sy'n cynrychioli 30% o wariant net y Cyngor).

8. **Arbedion Hanesyddol:** Ymysg £966,720 (cyfanswm gros) o arbedion hanesyddol mae'r Cyngor yn gobeithio gwireddu yn 2020/21, mae **£65,000** o 'arbedion trefniadaeth pellach' gan yr Adran Addysg i ddod allan o gyllideb ysgolion 2021/22. Mae'r £65k yma'n cyfrannu at yr arbedion £4.3m penderfynwyd arnynt yn 2016 fel strategaeth ariannol ar gyfer y dair blynedd 2016/17 - 2018/19. Roedd yr arbedion yma wedi'u seilio ar flaenoriaethau a nodwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus 'Her Gwynedd', pryd roedd Gwynedd, fel mwyafrif cynghorau Cymru, yn wynebu bwlch ariannol sylweddol. Yn hytrach na thorri dyraniadau'r holl ysgolion, yn 2016 caniatawyd gohirio'r elfen yma o'r arbedion £4.3m tan ar ôl 2018/19, i'w gynhaeafu rwan pryd mae'r effeithlonrwydd trefniadaeth ar gael. Mae'r arbediad effeithlonrwydd £65,000 yma rwan yn deillio o foderneiddio ysgolion yn ardal y Bala.

9. **Grant Ôl-16:** Erbyn 2021/22, yn gyffredinol, bydd cynnydd go sylweddol mewn dyraniadau grant ôl-16 i ysgolion uwchradd Gwynedd sydd â 6ed dosbarth. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r 6ed dosbarth yn uniongyrchol ers tro bellach, ac mae cynnydd ffafriol Gwynedd eleni yn dilyn rhai blynyddoedd diweddar pryd bu'r dyraniadau grant yma'n llai ffafriol i'n ysgolion uwchradd perthnasol ni.

10. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2021/22 ar lefel tebyg i 2020/21.

11. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion dipyn uwch yn 2021/22 na lefel 'cash' 2020/21, ond yn eithaf tebyg mewn termau 'real'.